**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A5 (CYLCHFAN HALTON I GYLCHFAN WHITEHURST, Y WAUN, BWRDEISTREF SIROL WRECSAM) (GWAHARDDIADAU A CHYFYNGIADAU TRAFFIG DROS DRO) 2026**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A5 rhwng Cylchfan Halton a Chylchfan Whitehurst, i'r gogledd o'r Waun, Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Effaith y Gorchymyn yw:

i. gwahardd dros dro pob cerbyd (ac eithrio'r rheini sy'n cael eu defnyddio gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith), beicwyr a cherddwyr rhag teithio rhwng Cylchfan Halton a Chylchfan Whitehurst.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gorllewin o Gylchfan Halton yw mynd ar hyd yr A5 tua'r de i Gylchfan Gledrid a'r B5070 tua'r gogledd i ailymuno â'r gefnffordd wrth Gylchfan Whitehurst: i'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r dwyrain o Gylchfan Whitehurst. Bydd y cyfyngiad pwysau ar bont y B5070 yn y Waun yn cael ei atal dros dro tra bo'r gwaith yn cael ei wneud.

ii. gosod terfyn cyflymder o 50 mya, 40 mya, 30 mya neu 10 mya dros dro ar y darn o'r A5 a ddisgrifir uchod. Dim ond pan fydd gwaith confoi yn digwydd y bydd y terfyn cyflymder o 10 mya yn gymwys ac ni chaniateir goddiweddyd ar yr adegau hyn.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 1 Mawrth 2026. Disgwylir i'r gwaharddiadau a'r cyfyngiadau dros dro weithredu yn ysbeidiol o 06:00 o'r gloch ar 1 Mawrth 2026 am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf. Bydd hysbysiad am yr holl waith sy'n cael ei wneud yn ystod y cyfnod hwn yn cael ei arddangos cyn i'r gwaith ddechrau.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**C WYNN**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A5 TRUNK ROAD (HALTON ROUNDABOUT TO WHITEHURST ROUNDABOUT, CHIRK, WREXHAM COUNTY BOROUGH) (TEMPORARY TRAFFIC PROHIBITIONS & RESTRICTIONS) ORDER 2026**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A5 trunk road between Halton Roundabout and Whitehurst Roundabout, north of Chirk, Wrexham County Borough.

The effect of the Order is to:

i. temporarily prohibit all vehicles (other than those being used by the emergency services or for the works), cyclists and pedestrians from travelling between Halton Roundabout and Whitehurst Roundabout.

The alternative route for westbound traffic from Halton Roundabout is via the southbound A5 to Gledrid Roundabout and northbound B5070 to re-join the trunk road at Whitehurst Roundabout: vice versa for eastbound traffic from Whitehurst Roundabout. The weight restriction on the B5070 bridge at Chirk will be suspended whilst works are undertaken.

ii. impose a temporary 50 mph, 40 mph, 30 mph or 10 mph speed limit on the length of the A5 described above. The 10 mph speed limit will only apply during convoy working and no overtaking will be permitted at such times.

The Order comes into force on 1 March 2026. The temporary prohibitions and restrictions are expected to operate intermittently from 06:00 hours on 1 March 2026 for a maximum period of 18 months. Notice of all works being undertaken during this period will be displayed prior to their commencement.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**C WYNN**
Transport
Welsh Government